

Rhifyn 39 Gwanwyn 2013

Chwarae

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan
yr elusen genedlaethol dros chwarae

dros Gymru



Scrapstore PlayPod®

Chwarae: mewn Ysgolion



Cynnwys

- 2 Golygyddol
- 3-4 Newyddion
- 5 Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31
- 6-7 Defnyddio tir ysgol
- 8 Polisi Chwarae ar gyfer ysgolion
- 9 Chwarae Cyfoethocach
- 10 Chwarae a mentrau mewn ysgolion
- 11 Pam ydych chi'n gadael i'ch disgyblion chwarae am y rhan fwyaf o'r diwrnod?
- 12 Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar
- 13 Datblygu'r gweithlu
- 14 Adolygiad llyfr

Diolch yn fawr

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o adran newyddion ein gwefan ar

www.chwaraecymru.org.uk

Golygyddol

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru* yn ystyried amser plant i chwarae'n yr ysgol: fel elfen o gwricwlwm strwythuredig, wedi ei gynllunio; fel rhan di-gwricwlwm o'r diwrnod ysgol (amser chwarae ac amser cinio) ac ar ôl oriau dysgu.

O'r 2,000 o blant a rhieni a gyfwelwyd gan ICM fel rhan o waith ymchwil Diwrnod Chwarae Cenedlaethol 2009, dywedodd 73 y cant o blant mai yn yr ysgol y maent yn cael eu prif gyfle i chwarae â'u ffrindiau, a dywedodd 55 y cant y byddant weithiau'n rhuthro eu cinio yn yr ysgol er mwyn cael amser i chwarae; dywedodd 84 y cant o rieni eu bod yn gwrthwynebu cwtogi amserau chwarae'r ysgol.

Canfyddodd yr ymchwil hefyd bod 88 y cant o rieni ac 80 y cant o blant yn teimlo bod plant yn hapusach mewn gwarsi o gael rhyddid i chwarae yn ystod amser chwarae. Roedd y ffigur yma'n codi i 99 y cant ar gyfer rhieni plant pump i chwemlwydd oed a dywedodd 94 y cant o'r holl rieni ei bod yn bwysig i neilltuo amser ar gyfer chwarae'n ystod oriau ysgol.

Yr hyn yr oedd plant yn ei ddweud

yw bod amserau chwarae'n rhan pwysig iawn o'r diwrnod ysgol iddyn nhw. Fe wyddom bod chwarae'n allweddol i blant er mwyn cael ymlacio a chael hwyl, yn ogystal ag ar gyfer eu lles, eu iechyd meddwl a chorfforol. Mae'n rhan o'u 'cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith' a chaiff pwysigrwydd chwarae i ddysg a datblygiad plant ei gydnabod yn gyffredinol mewn polisiau cenedlaethol trwy ystod o raglenni fel y Cyfnod Sylfaen a'r cynllun Ysgolion Iach.

Rydym yn falch o glywed, ble fo ysgolion wedi gwneud mân newidiadau o ran chwarae plant, bod y gwelliannau hyn yn gwbl amlwg i'r plant. Fydd neb sy'n gyfarwydd â'r diwrnod ysgol yn cael ei synnu y bydd gwella profiad goddrychol plant o'u cyfleoedd ar gyfer chwarae'n gallu gwella eu bodlonrwydd cyffredinol â'u profiad yn yr ysgol.

Fodd bynnag, er gwaetha'r gydnabyddiaeth gynyddol yma o bwysigrwydd chwarae, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu efallai bod amser i chwarae'n cael ei gwtogi yn hytrach na'i gyfoethogi mewn ambell i ysgol. Mae'n ymddangos hefyd bod cyfyngu ar y defnydd o wahanol fannau

neu ddiffyg caniatâd ar gyfer gwahanol fathau o chwarae hefyd yn darparu profiad llai cadarnhaol ar gyfer plant.

Mae gan bob chwarae, boed yn yr ysgol ai peidio, rôl sylfaenol wrth alluogi plant a phobl ifainc i ymgysylltu'n gadarnhaol â chymhlethdodau'r byd o'u hamgylch. Ar adeg pan fo Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth ar chwarae fe ddylem ninnau, boed yn rieni neu'n athrawon, fod yn herio unrhyw leihad arfaethedig mewn cyfleoedd i blant gael lle ac amser i chwarae.

At sylw pob ysgol!

Os hoffech dderbyn copi papur o rifynnau nesaf cylchgrawn *Chwarae dros Gymru* anfonwch eich manylion atom: post@chwaraecymru.org.uk / 029 2048 6050.

Ar hyn o bryd mae pob ysgol gynradd yng Nghymru'n derbyn copi electronig o'r cylchgrawn.



Newyddion

Beth sy'n ddigon? Ymchwilio digonolrwydd chwarae



Mae Prifysgol Swydd Gaerloyw, mewn partneriaeth â Chwarae Cymru, yn ymchwilio ymatebion awdurdodau lleol i ddyletsydd Llywodraeth Cymru i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Hyderir y caiff y prosiect graddfa fechan hwn ei ddilyn â phrosiect cydweithrediadol mwy o faint fydd yn ymchwilio i ofyniad llawn Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno gofyniad i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant. O'r herwydd, fe saif fel esiampl i weddill y byd yn ei agwedd tuag at gefnogi hawl plant i chwarae, ar adeg pan fo Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn cyhoeddi Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 o Gonfensiwn

y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae hwn yn gam dewr ac arloesol gan Lywodraeth Cymru, ac yn un sy'n haeddu cael ei ymchwilio ac adrodd arno, o ran rhannu gwybodaeth ar draws awdurdodau lleol ac hefyd sut y gallai'r fenter hon hysbysu gwledydd eraill am eu cyfrifoldebau o ran Erthygl 31.

Bydd y cam cyntaf hwn yn casglu trosolwg o ymatebion ar draws y 22 awdurdod lleol trwy holiadur arlein a data dogfenol. Yn ogystal, mae ymchwilyr wedi bod yn gweithio â thri awdurdod lleol sy'n astudiaethau achos, gan edrych ar yr egwyddorion a'r prosesau a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr asesiad a sut y bu i'r rheini sydd ynghlwm â'r gwaith wneud synnwyr o, a gwerthfawrogi prosesau a chanlyniadau'r asesiad.

Bydd Wendy Russell a Stuart Lester yn trafod yr ymchwiliad mewn

cyflwyniad yng nghynhadledd flynyddol Ysbryd, Chwarae Cymru, ym mis Mai.

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â Wendy Russell: wrussell@glos.ac.uk

www.chwaraecymru.org.uk/cym/digonolrwydd

Cyfringau Cymdeithasol

www.facebook.com/ChwaraeCymru



twitter.com/ChwaraeCymru



Diwrnod Chwarae 2013 – Mannau Chwareus



Thema'r ymgyrch Diwrnod Chwarae ar gyfer 2013 yw **Mannau Chwareus**.

Mae ymgyrch Mannau Chwareus yn galw ar bawb i helpu i sicrhau bod y manau y bydd plant yn

byw a chymdeithasu ynddyn nhw'n fannau gwydych ar gyfer chwarae. Mae'r ymgyrch yn cydnabod:

- Y dylai plant deimlo bod croeso iddynt ble bynnag y maent yn byw, a theimlo'n rhan o'u cymuned.
- Bod rhieni am i'w plant allu chwarae'r tu allan.
- Y dylid dylunio a rheoli manau cyhoeddus gan ystyried chwarae plant.

- Bod angen i blant a phobl ifainc gael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'r lleoedd a'r manau ble y byddant yn chwarae.

Am syniadau ynghylch sut y gallech ddefnyddio'r ymgyrch i wneud eich cymuned chi'n lle gwell ar gyfer chwarae plant ac am gyngor ac arweiniad ar sut i ymuno â'r ymgyrch, ymwelwch â gwefan Diwrnod Chwarae:

www.playday.org.uk

Meysydd chwarae Di-fwg Caerffili



Nod prosiect Amddiffyn ein Parciau, fforwm ieuentid Caerffili, oedd cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch materion oedd yn effeithio ar barciau Caerffili, yn cynnwys ysmegu a sbwriel, yn ogystal â chynllun i droi pob maes chwarae yn y sir yn fannau di-fwg.

Meddai Joel Price, aelod o'r fforwm ieuentid:

'Fe gymerodd y prosiect flwyddyn, ond dim ond pedwar mis gymerodd hi inni sicrhau bod ysmegu'n cael ei wahardd mewn parciau. Mae hyn yn dangos cymaint y gellir ei gyflawni mewn cyfnod byr o amser.'

Fel rhan o'r ymgyrch cynhaliodd y fforwm ieuentid gystadleuaeth i ysgolion a chlybiau ieuentid ar draws Caerffili i ddylunio arwydd dim ysmegu ar gyfer mannau chwarae. Enillydd y gystadleuaeth oedd Jasmine, 10 oed, wnaeth 'daro tant' gyda'r panel â'i harwydd sef Ysgyfaint Ifanc yn Chwarae (llun). Cynhyrchwyd yr arwyddion


gan y Cyngor ac aeth y fforwm ieuentid ati i'w gosod ger mynedfa pob parc ar draws y sir.

Derbyniodd y fforwm ieuentid ymateb gwych gan y cyhoedd a chydabyddiaeth gan bobl ifainc lleol. Nododd Joel:

'Mae'r arwyddion wedi eu gosod ers mis Medi 2012 a welwyd dim olion fandaliaeth ar unrhyw un o'r arwyddion hyd yma.'

Mae'r ymgyrch hon bellach yn esiampl i gynghorau eraill ar draws Cymru i gyflwyno eu meysydd chwarae di-fwg hwythau.

www.ashwales.org.uk/meysydd-chwarae-di-fwg/



Rhaglen ddogfen am faes chwarae antur

Caiff rhaglen ddogfen newydd ei ffilmio y Gwanwyn yma ar faes chwarae antur 'The Land' yn Wrecsam. Bydd y gyfarwyddwraig a'r criw, sy'n Americanwyr, yn treulio nifer o wythnosau'n ffilmio'r chwarae a'r gwaith chwarae sy'n digwydd ar y safle.

Caiff y ffilm gyflawn ei rhannu â rhieni, athrawon a llunwyr polisi mewn ymdrech i gyflwyno amgylcheddau chwarae plant i gynulleidfa oedd newydd. Mae'r maes chwarae antur yn amgylchedd sy'n ateb natur greddfodol plant i ddysgu ac sy'n credu bod chwarae'n weithgaredd a ddewisir o wirfodd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid ac sy'n parchu hawl plant i chwarae.

Meddai Claire Griffiths, cyfarwyddwraig safle 'The Land': *'Rydym yn edrych ymlaen i groesawu'r criw ffilmio. Mae'n galonogol bod cymaint o bobl yn cydnabod gwerth cyfleoedd plant i brofi chwarae'n rhydd a phwysigrwyd cymryd risg yn ystod plentyndod.'*

Gyda chymorth grŵp rhyngwladol o unigolion hael, codwyd dros \$13,000 trwy safle ariannu torfol i ariannu'r cam yma o'r gwaith ffilmio.

Playfreemovie.com
www.facebook.com/playfreemovie
www.twitter.com/playfreemovie

Adroddiad Blynyddol

Mae Adroddiad Blynyddol Chwarae Cymru ar gyfer 2011 – 2012 ar gael nawr. Mae Adroddiad Blynyddol Chwarae Cymru'n arddangos y cyfraniad a wnaethom i chwarae plant yng Nghymru yn ystod 2011 – 2012. Mae hefyd yn amlinellu'r modd y bu inni gyflawni ein nodau a'n amcanion yn ystod y flwyddyn.

www.chwaraecymru.org.uk/cym/adroddiadblynyddol

Ymddiriedolwyr newydd Chwarae Cymru

Mae'n bleser gennym groesawu dau aelod newydd i Fwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru:

Mae **Mike Shooter** yn Seiciatrydd Ymgynghorol wedi ymddeol sydd â mwy na 30 mlynedd o brofiad o weithio â phlant a theuluoedd yng Nghaerdydd a'r Cymoedd. Yn ystod ei ymddeoliad clinigol mae wedi cadeirio neu wedi bod yn ymddiriedolwr nifer o fudiadau'r trydydd sector, yn cynnwys Plant yng Nghymru, y Sefydliad Iechyd Meddwl, Young Minds a'r Samariaid.

Mark Isherwood yw Pennaeth Coleg Cymunedol YMCA Cymru ac ar hyn o bryd mae'n arolygwr cymheiriaid ar ran ESTYN. Yn ogystal â threulio seondiad dwy flynedd gyda Llywodraeth Cymru fel 'Hyrwyddwr Addysgeg' yn cynrychioli'r sector 16+, bu'n gynrychiolydd ar nifer o gyrrff allanol yn cynnwys Pwyllgor Cyngori Cenedlaethol Cymru y City & Guilds a Rhwydwaith Dysgu a Datblygiad Cymunedol Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth am ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, ymwelwch â:

www.chwaraecymru.org.uk/cym/llywodraethu

Ymrwymiad Y Cenhedloedd Unedig i hawl plant i chwarae

Ar 1 Chwefror 2013 mabwysiadodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Sylw Cyffredinol sy'n egluro ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31 o'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i lywodraethau ar draws y byd.

Mae Sylw Cyffredinol yn ddatganiad swyddogol sy'n ymhelaethu ar ystyr elfen o GCUHP sy'n galw am ddehongliad neu bwyslais pellach. Bydd y Sylw Cyffredinol yn diffinio pob elfen o Erthygl 31 ac yn egluro eu pwysigrwydd yng nghyd-destun twf a datblygiad plant a'u heffaith ar les cyffredinol plant.

Mae Erthygl 31 yn sicrhau bod 'Pleidiau Wladwriaethau'n cydnabod hawl y plentyn i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn gweithgareddau adloniadol a chwarae ... ac i gyfranogi'n rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.'

Amcanion y Sylw Cyffredinol yw:

a) I gyfoethogi dealltwriaeth am bwysigrwydd Erthygl 31 er lles a datblygiad plant, ac er mwyn cyflawni hawliau eraill a geir yn y Confensiwn.

b) I ddarparu dehongliad i Bartïon Wladwriaethau ynghylch y darpariaethau, a'r oblygiadau perthnasol, sy'n gysylltiedig ag Erthygl 31.

c) I ddarparu arweiniad ar y mesurau deddfwriaethol, barnwrol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol sy'n angenrheidiol i sicrhau ei weithredu er mwyn pob plentyn, heb wahaniaethu ac ar sail cyfle cyfartal.

Meddai Lesley Griffiths, Gweinidog Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol:

'Mae Cymru eisoes yn chwarae rhan flaenllaw wrth hyrwyddo hawliau plant ac erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r hawl i blant brofi rhyddid a mwynhad chwarae a gweithgareddau adloniadol o'r pwys mwyaf inni.'

'Yn ddiweddar fe wnaethom gychwyn y dyletswydd ar ein awdurdodau lleol i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn eu hardal leol. Dyma'r cam cyntaf wrth sicrhau fod gennym fannau diogel, digonol i'n plant chwarae ynddynt, yn awr ac ymhen blynyddoedd i ddod.'

Mae'r International Play Association (IPA) wedi chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad y Sylw Cyffredinol. Meddai Theresa Casey, Llywydd yr IPA:

'Mae chwarae, adloniant, gorffwys, hamdden a chwarae rhan mewn bywyd celfyddydol a diwylliannol i gyd yn cydberthyn ac yn allweddol bwysig i blentyndod iach a hapus. Bydd problemau'n codi pan ystyrir bod gweithgareddau o'r fath yn rhai moethus neu ofer. 'Does dim ymhellach o'r gwir. Maent i gyd yn hawliau sylfaenol plant a bydd yr IPA yn gwneud ei orau i barhau i gefnogi llunwyr polisiau ac ymarferwyr sy'n trosi'r hawliau hyn yn gamau gweithredu real.'

Meddai Chwarae Cymru:

'Ar lwyfan y byd, cyfeirir yn aml at Erthygl 31 fel yr hawl sy'n cael ei esgeuluso neu ei anghofio fwyaf. Serch hynny, mae Cymru eisoes yn arwain y ffordd drwy ddeddfwriaethu ar gyfer hawliau plant trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Bydd y Sylw Cyffredinol yn atgyfnerthu ymhellach ein dealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae yn mywydau plant.'

Yn ystod y misoedd nesaf bydd Chwarae Cymru a Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, yn cynnal lansiad swyddogol ar gyfer y Sylw Cyffredinol yng Nghymru.

www.chwaraecymru.org.uk/cym/sylwcyffredinol



Defnyddio tir ysgol

Mae cyfleusterau ysgol sy'n bodoli eisoes, yn y mwyafrif o achosion, yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ddigoni, nid yn unig anghenion dysgu pob dysgwr, ond hefyd lawer o anghenion cymdeithasol ac adloniadol y gymuned. Yn aml, mae adeiladau ysgol, eu cynnwys a'u tiroedd yn cynrychioli'r ased unigol fwyaf yn y mwyafrif o gymunedau.

Buddiannau

Mewn nifer o ardaloedd, yn drefol a gwledig, mae tir yr ysgol yn cynnig man niwtral o fewn y gymuned leol. Gall cael mynediad i ofod o'r fath gyfoethogi'r cyfleoedd sydd gan bob adran o'r gymuned o amgylch yr ysgol ar gyfer chwarae ac adloniant awyr agored. Gall ysgolion a chymunedau gael eu cyfoethogi pan fyddant yn ymwneud mwy â'u gilydd.

Yn gyffredinol, bydd plant a phobl ifainc yn gwneud mwy o ddefnydd o'r awyr agored ac yn treulio mwy o amser y tu allan nac oedolion, felly, mae effeithiau cadarnhaol cael mynediad i dir ysgol, o bosibl, yn fwy iddyn nhw nag y mae i oedolion.

Mae buddiannau defnyddio tir ysgol ar gyfer chwarae'n cynnwys:

- Cynnydd mewn lefelau ysgogiad a hunan-barch ymysg disgyblion
- Cyfleoedd sy'n atal pobl ifainc rhag symud ymlaen i lefelau risg uwch
- Cyfleusterau a chyfleoedd ychwanegol
- Gwell gweithio partneriaeth o fewn y gymuned
- Gostyngiad mewn dadrithiad ymysg disgyblion
- Gwelliannau mewn ymddygiad a sgiliau cymdeithasol plant
- Gwelliant mewn cyfleoedd chwarae sydd ar gael yn lleol
- Gwell cyfleoedd i blant y tu allan i oriau ysgol
- Helpu i adfywio ac atgyfnerthu cymunedau
- Gwell cydweithredu gyda asiantaethau eraill i hybu gwell diogelwch cymunedol.

Delio â phryderon

Allwn ni ddim honni na fydd darparu cyfleoedd chwarae ar dir ysgol y tu allan i oriau dysgu'n her.

Mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion a rhai cymunedau'n wynebu mwy o heriau na'i gilydd. Mae pob ysgol yn unigryw, ac mewn sefyllfa ddelfrydol i fod yn gwbl sensitif i anghenion ei chymuned benodol ei hun.

O'r cychwyn cyntaf, dylid cydnabod y ceir cyfyngiadau cyffredin y bydd angen eu goresgyn pan ddefnyddir cyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau ar wahân i'r swyddogaeth pennaf o addysgu disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cynnwys:

- Patrwm sylfaenol a defnyddioldeb y safle
- Costau atebolrwydd
- Costau rhedeg a chynnal a chadw
- Gwrthwynebiad y gymuned addysgol, a'r gymuned ehangach.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae Chwarae Cymru ar hyn o bryd yn gweithio gyda gweithgor Cymru-gyfan o benaethiaid i ddynodi atebion posibl i heriau y gallai ysgolion eu wynebu wrth ystyried defnyddio

Astudiaeth Achos: Ysgol Iau Gaer, Casnewydd

Yn Ysgol Iau Gaer ceir tua 180 o ddisgyblion rhwng 7-11 mlwydd oed o ddalgylch cymysg, yn ogystal â Chanolfan Cynnal Dysgu sy'n cynorthwyo plant o bob cwr o Gasnewydd. Mae'r ysgol yn rhannu safle gyda Ysgol Babanod Gaer, canolfan gymunedol yn ogystal â Man Chwarae Amldefnydd (MUGA).

Saif yr ysgol ar safle 14 acer sy'n cynnwys dôl, yn ogystal ag ardaloedd o goetir a mannau bywyd gwyllt sydd bellach wedi hen ymsefydlu, ynghyd â

meysydd sylweddol o faint ar gyfer chwaraeon.

Ar un adeg roedd gan yr ysgol drefniant mynediad digyfyngiad hanesyddol y tu allan i oriau ysgol; fodd bynnag, ddwy flynedd yn ôl, gosodwyd gatiâu ar y safle oedd yn cyfyngu ar fynediad i'r tir a'r MUGA. Lluniodd corff llywodraethol yr ysgol gytundeb gyda Chyngor Dinas Casnewydd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer atgyweirio'r MUGA.

Meddai'r Pennaeth, John Webb, 'Ein hysgol ni yw'r unig lain o dir gwastad a geir yn ein cymuned leol ac, yn hanesyddol, rydym wedi

gweithio â chlybiau chwaraeon lleol i ddarparu tir ar eu cyfer. Rai blynyddoedd yn ôl fe wnaethom weithio'n agos â'r gymuned pan grybwyllwyd bod diffyg cyfleusterau ar gyfer pobl ifainc yn broblem.

'Fe dderbyniom MUGA a lloches ieuencid ar y safle, gaiff eu defnyddio gan bobl ifainc o bell ac agos. Ers sefydlu'r cyfleusterau a chodi'r ffensys newydd mae ein hysgol ni, ac ysgol y babanod, wedi cofnodi llai o achosion o fandaliaeth a difrod; i ddweud y gwir, mae llai o ffenestri'n cael eu torri nawr nag oedd yn y gorffennol.'

tiroedd ysgol y tu allan i oriau ysgol. Gyda'n gilydd, byddwn yn datblygu dulliau ymarferol ar gyfer cynorthwyo gyda'r defnydd o diroedd ysgol at ddiben chwarae'r tu allan i oriau ysgol.

Cloi'r Gatiâu

Bydd penderfynu a ddylid cloi gatiâu'r ysgol ai peidio'n dibynnu'n helaeth ar sefyllfa leol yr ysgol; fodd bynnag, efallai mai'r cwestiwn mwyaf perthnasol yw nid os y dylid eu cau ond yn hytrach pryd y dylid eu cau.

Hyd yn oed yn y manau hynny ble fo gwir angen i gatiâu'r ysgol gael eu cau wedi oriau ysgol, yn aml iawn ceir cyfnod cyn i'r addysgu ddechrau yn y bore ac wedi i'r addysgu orffen yn y prynhawn ble y gellid caniatáu mynediad i dir yr ysgol.

Efallai y byddai'n bosibl hefyd i rai ysgolion ystyried systemau mynediad deuol. Er enghraifft, ardal arwyneb caled caeëdig ar gyfer gemau pêl a chwarae ar olwynion wedi ei hadeiladu ar ffin allanol safle'r ysgol, gyda mynedfa ar ochr yr ysgol a mynedfa ar yr ochr gymunedol. Bydd hyn yn darparu ardal at ddefnydd yr ysgol ac ar gyfer defnydd y tu allan i oriau ysgol, fydd ddim yn gofyn i'r prif gatiâu gael eu gadael ar agor.

Offer Chwarae

Mae rhai ysgolion yn teimlo nad oes gan dir ysgol fawr ddim i'w gynnig i blant a phobl ifainc os nad oes offer chwarae sefydlog ar y safle. Fodd bynnag, bydd rhoi amser, lle a chaniatâd i chwarae'n cefnogi plant i wneud y gorau o'r amgylchedd. Bydd gofod naturiol, glaswelltrog wedi ei dirlunio'n dda yn darparu nodweddion cadarnhaol amlwg ar gyfer chwarae; fodd bynnag, gall ardal wastad wedi ei tharmacio ddarparu gofod da, sy'n rhydd o beryglon, ble y gall plant a phobl ifainc fynd ar feic neu sgwter.

Bydd y manau chwarae gorau'n cynnwys amrywiaeth eang o rannau rhydd a bydd hawl gan y plant i chwarae â hwy fel y mynnant. Mae rhannau rhydd yn wrthrychau neu'n elfennau y gellir eu symud o amgylch, eu haddasu, eu hadeiladu, eu chwalu, eu cymysgu, neu eu llenwi â rhinweddau dychmygol, er enghraifft:

papur, cerrig, brigau, dŵr, tywod, plu, dail, offer, hoelion, blychau, ffabrig, rhaffau, pren, potiau, anifeiliaid, planhigion, metal, clai, mwd, byrddau, cadeiriau, blancedi, unrhyw beth a phopeth y gellir ei symud neu ei drin fel rhan o chwarae.

gaeëdig sy'n cynnwys dŵl wyllt, llyn bychan ac ardal wlyptir. Maent hefyd yn datblygu coetir, gardd lysiau, cwt ieir ac ardal bywyd gwyllt yno.

Meddai'r pennaeth, Darren Jones, 'Mae caniatáu mynediad agored i'r gymuned yn drefniant hanesyddol, yn bennaf gan mai tir yr ysgol yw'r unig ardal adloniadol a geir yn y gymuned. Ar y cyfan, mae tir yr ysgol wedi cael ei drin mewn modd parchus. Bydd plant a phobl ifainc sy'n byw yn y gymuned yn dod draw ac yn chwarae ochr-yn-ochr â grwpiau a drefnir, fel y clwb gofal plant, heb unrhyw broblemau,

I gloi

Mae'n bwysig bod ysgolion yn gwbl realistig ynghylch yr hyn y gallant ac na allant ei ddarparu, o ran datblygu ac ehangu cyfleoedd ar gyfer chwarae ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Gall pob ysgol wneud rhywbeth – mae ysgolion ar draws y wlad wedi profi hyn, a gallwn ddysgu o'u profiadau.

Efallai nad rhwystr ymarferol fydd y rhwystr mwyaf a wynebwr gan nifer o ysgolion. Efallai mai ofn methiant fydd hyn, neu ymdeimlad fod hyn yn wahanol iawn i'r hyn y bydd ysgolion yn ei wneud fel arfer ac felly y bydd yn gostus neu'n gymhleth dros ben. Bydd ambell i ysgol yn wynebu heriau mwy na'i gilydd; ac efallai mai'r ysgolion hynny a leolir mewn cymunedau sydd fwyaf anghenus fydd yn wynebu'r heriau pennaf. Ond y cyfan yr ydym yn sôn amdano yma yw ehangu ar yr hyn y mae ysgolion yn ei wneud eisoes – nid 'mwy' o reidrwydd, ond yn sicr rywbeth 'gwahanol'.

Bydd y buddiannau posibl o ran lles ac ymgysylltu â'r gymuned, yr effeithiau cadarnhaol ar iechyd a hapusrwydd plant a phobl ifainc; a chyfoethogi'r ymdeimlad lleol o gymuned yn sicr yn gwneud y cyfan yn werth chweil.

ac nid ydym wedi cael unrhyw drafferthion megis fandaliaeth neu ddifrod.

'Yn ddiweddar fe wnaethom gyflwyno Pod Chwarae, sef blwch yn llawn deunyddiau ac offer (rhannau rhydd) all hwyluso a chyfoethogi chwarae plant. Mae'r plant yn cael mynediad agored i hwn y tu allan i oriau ysgol a chafwyd fawr ddim trafferthion gyda'r cyfleuster ychwanegol hwn, ar wahân i gael hyd i bethau wedi eu gadael yma ac acw ambell dro ar ôl y penwythnos neu wyliau'r ysgol.'

Astudiaeth Achos: Ysgol Gynradd Gymunedol Cradoc, Aberhonddu, Powys

Sefydlwyd Ysgol Cradoc yn dilyn cyfuno pum ysgol bentref fechan leol. Mae 130 o ddisgyblion 3-11 mlwydd oed yn yr ysgol.

Mae tir yr ysgol yn eang ac yn cynnwys dau fuarth chwarae ac ardaloedd chwarae glaswelltrog sylweddol, sy'n cael eu gwella'n barhaus. Ceir hefyd faes hoci / pêl-droed a chae rygbi ar wahân.

Mae'r tiroedd yn cynnal amrywiol gynefinoedd. Ceir ardal naturiol

Polisi Chwarae

ar gyfer ysgolion

Bydd plant yn chwarae'n ystod oriau dysgu fel rhan o gwricwlwm yr ysgol ac adeg di-gwricwlwm y diwrnod ysgol.

Yn ystod adeg cwricwlwm strwythuredig y diwrnod, bydd gan chwarae, o safbwynt yr athrawon, ganlyniadau dysgu penodedig. Er mwyn cyflawni canlyniadau a ddynodwyd gall y chwarae fod wedi ei strwythuro, ei gyfarwyddo a'i asesu gan yr athro. Bydd athrawon yn arwain neu'n cyfeirio'r chwarae er mwyn helpu'r plentyn i ddatblygu gwybodaeth ar draws y cwricwlwm. Mae Chwarae Cymru wedi datblygu awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gellid cynnwys chwarae mewn amrywiol feysydd o'r cwricwlwm:

www.chwaraecymru.org.uk/cym/ysgolion

Mae amser chwarae'r plant yn cyfrif fel adeg di-gwricwlwm y diwrnod; pan fo'r chwarae'n cael ei ddewis o wirfodd y plentyn a'i fod dan reolaeth y plentyn hefyd. Bydd dylunio tirwedd yr ysgol, cynlluniau meysydd chwarae a defnydd da o ofod dan do i ddarparu ar gyfer chwarae yn ystod tywydd neilltuol o wael, yn cynnig cyfle i wella ansawdd amserau chwarae ar gyfer y disgyblion yn ogystal â'r staff. Bydd gwell dylunio a defnydd dyfeisgar o ofod yn cefnogi buddiannau cadarnhaol, megis:

- gostyngiad mewn ymddygiad treisgar ar fuarth chwarae'r ysgol
- darparu profiadau cymdeithasol cadarnhaol ar gyfer plant
- lefelau gwell o dalu sylw a gweithgarwch yn yr ystafell ddosbarth.

Dylai'r diwrnod ysgol ganiatáu amser a lle i blant ymlacio a chwarae'n rhydd gyda'u ffrindiau. Bydd plant yn treulio cyfnod cymharol hir yn yr ysgol, felly dylai'r gofod gael ei ddylunio i fod yn gynhwysol ac yn hyblyg.

Yn ystod adeg di-gwricwlwm y diwrnod ysgol, pan mae creu cyfleoedd chwarae rhydd o safon yw'r amcan, dylid rhoi rhyddid i bob ymarferydd, yn cynnwys athrawon, i weithio'n unol â gwerthoedd chwarae ac amcanion gwaith chwarae.

Mae Chwarae Cymru'n argymhell y dylai ysgolion sydd am ddarparu profiadau chwarae o safon ar gyfer plant, fabwysiadu polisi chwarae. Mae polisi chwarae ysgol yn datgan y gwerth y bydd ysgol yn ei osod ar chwarae plant ac yn ymrwymo i gefnogi cyfleoedd chwarae plant. Mae hefyd yn cynorthwyo staff, yn ystod adeg cwricwlwm strwythuredig, penodedig y diwrnod ysgol, i ddefnyddio eu barn broffesiynol i gyflawni gofynion y cwricwlwm trwy chwarae ac i ymyrryd mewn modd sensitif er mwyn mwyafu'r potensial dysgu.

Dylid rhannu'r polisi â'r plant, y staff a'r rhieni a dylid ei gynnwys ym mhrosiectws yr ysgol.

Rydym wedi creu esiampl o bolisi chwarae ysgol y gellid ei ddefnyddio yn ei gyfanrwydd neu ei addasu i weddu i anghenion penodol yr ysgol. Mae ar gael i'w lawrlwytho ar:

www.chwaraecymru.org.uk/cym/polisichwaraeysgol

Dywed Polisi Chwarae Llywodraeth Cymru (2002):

'Trwy chwarae, sef y broses ddysgu sylfaenol, y mae'r ddynoliaeth wedi datblygu. Mae plant yn amlygu awydd greddfoll i chwarae ac mae'n rhan annatod o'u hymddygiad. Mae wedi cyfrannu'n sylweddol at oroesiad esblygiadol a datblygiadol ein rhywogaeth. Mae plant yn defnyddio chwarae yn yr amgylchedd naturiol i ddysgu am y byd y maent yn byw ynddo gydag eraill. Mae'n hanfodol i'r broses o ddysgu a thyfu, ac felly mae popeth a ddysgir trwyddo o fudd i'r plentyn ...

'Y rhyddid hwnnw sy'n codi o chwarae a'r ffaith bod y plentyn yn ganolbwynt iddo sy'n ei gwneud yn broses ddysgu mor effeithiol a chynhwysfawr.

'Mae'r datganiad polisi hwn wedi'i seilio ar yr egwyddorion bod: hawl gan bob plentyn gael ei barchu am ei gyfuniad unigryw o briodoleddau a doniau personol; y dylid parchu canfyddiadau, safbwyntiau a barn y plentyn bob amser gan fod pob plentyn yn perthyn i, ac yn geidwad, diwylliant ehangach'.

Cyfoethocach Chwarae

Mae angen i feysydd chwarae ysgolion ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog ar gyfer plant.

Bydd man chwarae cyfoethog yn cynnwys nifer o wahanol ardaloedd y gellir gwahaniaethu rhyngddynt, ar gyfer gwahanol fathau o chwarae, trwy ddefnyddio gwahanol fathau o arwynebau neu lefelau yn ogystal â ffensys neu blanhigion. Bydd plant yn gwerthfawrogi ac yn gwneud defnydd da o dirwedd llawn amrywiaeth.

Efallai bod nodweddion yn y tirwedd eisoes sy'n ddelfrydol ar gyfer chwarae plant e.e. coed a llwyni, twmpathau, ardaloedd wedi eu plannu, waliau, ardaloedd sy'n naturiol yn cael llai o ddefnydd, manau ymgasglu neu eistedd, ardaloedd glaswelltog a gwlyptir. Yn anffodus mae llawer ohonom wedi etifeddu lleiniau anial o darmac – ond mae nifer o ffyrdd y gallwn wneud y manau hyn yn fwy cyfoethog ac yn fwy boddhaus ar gyfer y plant.

Cynnwys y plant

Wedi arsylwi'r plant yn chwarae, gellid hefyd cynnwys arolygon, mapiau neu ymgynghoriadau mewn cynlluniau gwarsi fel bod y plant yn chwarae rhan yn y gwaith o asesu eu hamgylchedd eu hunain, edrych ar wahanol opsiynau a dod yn rhan o'r broses gynllunio. Mae hwn yn gyfle delfrydol i gynnwys cyngor yr ysgol mewn modd ysturlon.

Fodd bynnag, pan fo plant yn meddwl am feysydd chwarae yn aml iawn byddant yn troi at yr hyn y maent yn ei adnabod orau, neu'r hyn y maent yn credu y bydd oedolion yn ei ddisgwyl ohonynt – y model offer sefydlog trefol – siglenni a llithrennau. Maent yn llai tebygol o feddwl am y manau anffurfiol a'r amgylcheddau mwy naturiol sydd mewn gwirionedd yn darparu mwy o opsiynau a chwarae o fwy o werth. Mae angen i blant lunio dewisiadau doeth sy'n seiliedig ar brofiad – felly, yn aml iawn, mae'n werth cynnal ymweliadau archwiliol a chynnal gwaith ymchwil ar ystod o wahanol opsiynau.

Mae plant yn dweud mai amser chwarae yw rhan pwysicaf y diwrnod ysgol iddyn nhw. Mae ganddynt hawl i gael lle ac amser i chwarae fel rhan o'u diwrnod ysgol.

Cynnwys pawb

Mae gan bawb sy'n ymwneud â'r ysgol ddiddordeb yn nhir yr ysgol. Mae rhai ysgolion wedi elwa o gymorth rhieni / gofalwyr a llywodraethwyr sydd â sgiliau penodol neu all gael gafael ar ddeunyddiau angenrheidiol.

Bydd cynnwys gofalwr yr ysgol a'r goruchwylwyr amser cinio yn y cynlluniau o'r dechrau cyntaf yn talu ar ei ganfed. Mae rhai ysgolion wedi elwa o dalu iddynt ymuno mewn cyfarfodydd a sesiynau gwybodaeth neu hyfforddiant. Caiff gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau'r oedolion sy'n goruchwyllo amserau chwarae effaith sylweddol ar ansawdd profiadau chwarae plant a phobl ifainc.

Ariannu

Pan fo cyllidebau ysgolion yn dynn, bydd pawb yn pryderu o ble ddaw'r arian. Fodd bynnag, efallai na fydd offer chwarae gwneuthuredig costus yn cynnig y gwerth chwarae gorau, a thrwy wneud dewisiadau deallus sy'n seiliedig ar ymddygiad chwarae plant; defnyddio deunyddiau a llafur sydd ar gael yn lleol; a, thrwy symud ymlaen yn raddol gam wrth gam, gallwn sicrhau newidiadau rhagorol fydd yn ychwanegu at fywydau plant, a hynny heb dorri'r banc.

Dyma rai ffyrdd rhad a chyflym er mwyn darparu mwy o opsiynau ar gyfer chwarae:

1. Caniatáu mynediad i ardaloedd glaswelltog – a dim ond torri'r gwair ar y manau a ddefnyddir ar gyfer chwaraeon. Mae gwair hir yn fan gwych ar gyfer chwarae, a glaswellt yw'r arwyneb diogel delfrydol – efallai y bydd y plant yn baeddu ond ceir llai o ddamweiniau a llai o gwynion am drowsusau wedi rhwygo.
2. Darparu 'rhannau-rhydd' – rhaffau sgipio, cylchau, sialc. Mae canolfannau adnoddau chwarae'n fannau gwych i ddod o hyd i eitemau rhad: www.chwaraecymru.org.uk/cym/canolfannauadnoddauchwarae
3. Gall pryderon ynghylch iechyd a diogelwch arwain at weld elfennau

o chwarae corfforol a llawn risg yn cael ei wahardd oherwydd ofn ymgyfreithiad. Dylai agwedd synnwyr cyffredin, ble fo hanes a'r nifer o ddamweiniau chwarae'n cael eu hystyried a ble fo polisi asesiad risg parhaus yn ei le, atal gwahardd y mathau yma o chwarae. Hefyd, mae'n werth edrych ble fo'r chwarae'n digwydd – bydd bwrw olwyndro yn fwy o risg ar arwyneb caled nag ar laswellt.

4. Byddai darparu hyfforddiant gwaith chwarae lefel mynediad ar gyfer staff sy'n goruchwyllo amserau chwarae'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r modd y caiff chwarae ei hwyluso ar dir yr ysgol, ac yn cael effaith parhaol.

www.chwaraecymru.org.uk/cym/gwaithchwarae

www.chwaraecymru.org.uk/cym/ysgolion

Pwysigrwydd amser chwarae

Mae'r daflen wybodaeth: *The benefits of school playtime*, a gyhoeddwyd gan y Children's Play Information Service (CPIS), yn cynnig trosolwg o rywfaint o'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd i fuddiannau amser chwarae (mewn ysgolion cynradd yn bennaf) ac yn trafod sut y gall plant ac ysgolion elwa o amser chwarae chwareus.

Mewn datganiad polisi dywed *The American Academy of Pediatrics* bod 'amser egwyl diogel â goruchwyliaeth ddigonol yn cynnig buddiannau gwybyddol, cymdeithasol, emosïynol a chorfforol nad ydynt, efallai, yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn pan wneir penderfyniad i'w gwtogi. Mae amser egwyl yn elfen ar wahân i, ac yn cyfannu, addysg gorfforol – ond nid yw'n cymryd ei le. Cred *The American Academy of Pediatrics* bod amser egwyl yn rhan angenrheidiol ac allweddol o ddatblygiad plentyn ac na ddylid ei atal am resymau academaidd neu gosbol.'

www.chwaraecymru.org.uk/cym/adnoddauysgolion

Chwarae a mentrau mewn ysgolion

Mae nifer o fentrau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at wneud ein ysgolion yn fannau chwarae-gyfeillgar, fel y cyfnod sylfaen ac ysgolion bro.

Bydd llawer o blant yn dweud wrthym mai'r ysgol yw'r prif gyfle fydd ganddynt i dreulio amser yn chwarae gyda'u ffrindiau. Yn aml bydd ysgolion yn cynnig man delfrydol i blant chwarae a rhyngweithio â'i gilydd. Mae'n bwysig datblygu elfen chwarae gref er mwyn darparu amgylchedd ysgol iach.

Gellir darparu amgylcheddau chwarae cyfoethog a chyfleoedd chwarae o safon fel rhan o fentrau a chynlluniau eraill, megis Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ac Ysgolion Iach.

Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Mae prosiectau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn cynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig – yn cynnwys adeiladau newydd ac atgyweirio rhai sy'n bodoli eisoes. Mae Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn cydnabod bod 'tiroedd ysgol gwych yn fannau ysbrydoledig, sydd wedi eu dylunio'n ddoeth ac sy'n rhydd i'w cynnal a'u cadw.'

Tra'n dylunio a datblygu ysgolion newydd neu'n diweddarau cyfleusterau sy'n bodoli eisoes i gydweddu â'r model hwn, mae'n bwysig cynnwys elfennau fydd yn

cyfrannu at amgylchedd chwarae-gyfeillgar – a sicrhau y caiff cyfleoedd i chwarae eu hannog trwy:

- Sicrhau bod manau chwarae awyr agored yn darparu cyfleoedd eang ar gyfer pob plentyn o amrywiol oeddrannau i brofi amgylchedd chwarae cyfoethog.
- Darparu ystafelloedd sychu ar gyfer dillad ac esgidiau gwlyb.
- Darparu manau dan do addas ar gyfer chwarae'n ystod cyfnodau o dywydd difrifol o wael.

Am ysbrydoliaeth ar sut i ymgorffori elfennau o ethos Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ym muarth chwarae eich ysgol, edrychwch ar yr ystod o enghreifftiau y gellir eu copïo ar: <http://21stcenturyschools.org/?lang=cy>

Ysgolion Iach

Sefydlwyd Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach (WNHSS) i greu ysgolion sy'n fodolau fyddai'n arddangos effaith hybu iechyd yn sefyllfa'r ysgol ac fyddai'n rhannu eu profiadau. Bydd angen i ysgolion arddangos eu bod wedi

ymrwymo'n llwyr i agwedd sy'n datblygu'r ysgol gyfan fel gweithle sy'n hybu iechyd.

Gall cydlynwyr ysgolion iach sicrhau y caiff chwarae ei gynnwys yn yr agwedd ysgol iach trwy:

- Eiriol dros fannau chwaraeadwy wedi eu dylunio'n dda pan wneir unrhyw welliannau cyfalaf.
- Eiriol dros gael amser digonol ar gyfer bwyta cinio ac amser chwarae (bydd plant yn dweud wrthym y byddant yn aml iawn yn brysio i fwyta eu cinio yn yr ysgol er mwyn cael mwy o amser i chwarae. 'Bydd pobl yn taflu eu cinio i'r bin er mwyn cael mwy o amser i chwarae a bydd pobl eraill yn sleifio allan o'r ffreutur.')
- Sicrhau y caiff amser chwarae ei ddiogelu. Yn aml caiff tynnu amser chwarae'n ôl ei ddefnyddio fel cosb. Mae amser chwarae'r ysgol cyn bwysiced i'r plant ac y mae amser egwyl i staff yr ysgol.
- Eiriol yn erbyn cwtogi amserau chwarae ysgol.
- Eiriol dros ddefnyddio tir yr ysgol y tu allan i oriau addysgu, er mwyn darparu lle i'r plant chwarae.

Mewn Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardaloedd, mae Llywodraeth Cymru'n diffinio amgylchedd chwarae cyfoethog fel a ganlyn:

'Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn un sy'n hyblyg, addasadwy, amrywiol a diddorol. Mae'n mwyafu'r potensial ar gyfer cymdeithasu, creadigedd, dyfeisgarwch her a dewis. Mae'n fan cyhoeddus dibynadwy ble y mae plant yn teimlo'n rhydd i

chwarae yn eu ffordd eu hunain, ac ar eu telerau eu hunain.'

'Mae darpariaeth chwarae o safon yn cynnig cyfle i bob plentyn rhyngweithio'n rhydd â, neu brofi'r canlynol:

Plant eraill – o wahanol oeddrannau a gallu, gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, i drafod, cydweithredu, dadlau a datrys anghydfodau.

Y byd naturiol – y tywydd, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid, mwd.

Rhannau rhydd – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu.

Y pedair elfen – daear, awyr, tân a dŵr.

Her ac ansicrwydd – cyfleoedd graddedig ar gyfer cymryd risg; ar lefel corfforol yn ogystal ag emosiynol.'

Gall pob ysgol weithio tuag at ddarparu cyfleoedd er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael profiadau chwarae amrywiol o safon yn yr ysgol.

Pam ydych
chi'n gadael i'ch
disgyblion

Chwarae

am y rhan fwyaf o'r diwrnod?

David Ramsay, athro meithrin ym Moston, UDA, sy'n sôn wrthym am ei brofiadau addysgu seiliedig ar chwarae a'i ymweliad ysbrydoledig â'r DU.

Fel athro meithrin, byddaf yn gweld bob dydd sut y mae fy nisgyblion pedair a phum mlwydd oed yn tyfu trwy fwynhau chwarae. Er gwaethaf buddiannau hysbys chwarae a sbardunir gan y plentyn bydd rhieni, ac unigolion eraill sy'n meddu ar fawr ddim dealltwriaeth o ddatblygiad plant ac addysg plentynod cynnar, yn gofyn imi'n aml: *'Pam ydych chi'n gadael i'ch disgyblion chwarae am y rhan fwyaf o'r diwrnod, pan fod cymaint sydd angen iddynt ei ddysgu? Fe all plant chwarae gartref; mae angen iddynt astudio darllen, ysgrifennu a mathemateg pan mae nhw yn yr ysgol.'*

Fe fyddaf innau'n ateb: *'Rwy'n deall yn iawn eich bod am i'ch plentyn wneud yn dda yn yr ysgol – yn academaidd ac o ran doniau cymdeithasol-emosiynol. Rydw innau eisiau'n union yr un peth, a dyna'n union pam y byddaf yn caniatáu i'ch plentyn chwarae yn yr ystafell ddosbarth bob dydd.'* Rwy'n dilyn hyn trwy ddisgrifio sut y gall ac y bydd y plant yn mwynhau mathemateg, gwyddoniaeth, darllen ac ysgrifennu trwy chwarae, a sut mai chwarae yw'r modd mwyaf addas o ran datblygiad i blant ifainc ddysgu am y byd o'u hamgylch.

Mae llawer o fy nisgyblion â fawr ddim cyfleoedd gartref i fwynhau unrhyw fath o chwarae parhaus o safon a sbardunir gan y plentyn. Ceir nifer o resymau am hyn, yn cynnwys pryderon rhieni ynghylch diogelwch yn y gymdogaeth, rhieni'n caniatáu i'w plant wyllo gormod o deledu, rheini'n gweithio nifer o swyddi sy'n golygu bod raid i'r plant aros

mewn cynlluniau ar ôl ysgol tan fin nos. O ganlyniad i hyn rwy'n teimlo ei bod yn bwysicach fyth imi ddarparu amser i fy nisgyblion chwarae yn ystod y diwrnod ysgol.

Un o fuddiannau pwysig chwarae a sbardunir gan y plentyn yw ysgogi'r meddwl creadigol. Trwy chwarae gall plant ddatblygu eu gallu i feddwl am sefyllfaoedd mewn modd creadigol – bydd plant yn wynebu a ffurfio problemau y byddant yn ceisio eu datrys trwy ddefnyddio ystod eang o brosesau. Un o agweddau allweddol chwarae a sbardunir gan y plentyn yw meddwl dargyfeiriol, sy'n un o nodweddion creadigedd. Mae gallu meddwl mewn modd creadigol a chynhyrchu syniadau a datrysiadau creadigol yn ddawn allweddol ar gyfer pob maes academaidd yn cynnwys darllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn ystod haf 2012 fe ymwelais â rhaglen *Scrapstore PlayPod®* ym Mryste, ysgol gynradd Parc Aberdâr ac ysgol gynradd Mount Stuart yng Nghaerdydd, ble y gwyliais y plant yn chwarae â rhannau rhydd yn ystod eu amser chwarae.

Arddangosodd y rhaglenni hyn ffordd wych o gynnwys chwarae a sbardunir gan y plentyn yn y diwrnod ysgol. Wedi siarad â'r penaeithaid, y goruchwylwyr amser cinio, gweithwyr chwarae a'r plant eu hunain, daeth yn amlwg imi pa mor fuddiol y gallai'r rhaglen hon fod ar gyfer disgyblion Ysgolion Cyhoeddus Boston, ble rydw i'n dysgu.

Ar hyn o bryd rwy'n datblygu rhaglen beilot gaiff ei chyflwyno ym mis Medi 2013, gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion Ysgolion Cyhoeddus Boston chwarae â rhannau rhydd a sbardunir gan y plentyn ac a hwylysur gan oedolion yn ystod amserau chwarae. Caiff y gwaith yma ei ysbrydoli'n uniongyrchol gan y rhaglenni gwych a welais yn ystod fy ymweliad â De Cymru a Bryste, ac rwy'n hynod o ddiolchgar imi gael cyfle i weld y fath ddarpariaeth chwarae rhagorol ac ysbrydoledig ar waith mewn ysgolion.

Am fwy o wybodaeth am *Scrapstore PlayPod®* ymwelwch â: www.playpods.co.uk



Cymru

Gwlad Chwarae-Gyfeillgar

Mae Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar yn ymgyrch gan Chwarae Cymru i helpu i greu rhwydwaith o gefnogaeth ar gyfer chwarae ar draws Cymru. Rhannwch yr hyn sy'n digwydd yn lleol, sydd unai'n gwarchod neu'n gwahardd hawl plant i chwarae, ar dudalen yr ymgyrch ar Facebook. Dyma enghraifft o brosiect sy'n cyfrannu tuag at wneud Cymru'n wlad gyfeillgar ar gyfer plant sy'n chwarae.

Mae gweithwyr chwarae ar draws Cymru'n llunio perthnasau gwell ag ysgolion lleol trwy gynorthwyo gyda chyfnodau di-gwricwlwm y diwrnod ysgol, trwy hwyluso modelau lleol o'r *Scrapstore PlayPod@*.

Mae'r *Scrapstore PlayPod@* yn broses holistig sy'n gweithio gyda chymuned gyfan yr ysgol i newid yr amgylchedd chwarae ffisegol, yn ogystal â dynol, gan drawsnewid chwarae yn ystod amserau cinio. Mae'r broses yn cynnwys:

- Hyfforddiant a mentora
- Ymgynghoriaeth a chefnogaeth
- Deunyddiau ac adnoddau ar gyfer chwarae
- Strwythur pwrpasol.

Mae mudiadau chwarae'n cynorthwyo ysgolion i gynnal arolygon meysydd chwarae o fannau chwarae sy'n bodoli eisoes. Mae llawer yn darparu hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr amser cinio sy'n eu cynorthwyo i ddeall yn well ystod eang o gyfleoedd chwarae. Maent yn darparu gwybodaeth a chynghor sy'n benodol i gefnogi chwarae yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Bydd y gweithwyr chwarae'n casglu sborion priodol sy'n lân a diogel, fel rhwydi, cardbord a thiwbiau, sy'n addas ar gyfer chwarae plant a gaiff ei gasglu gan fusnesau a gwneuthurwyr. Bydd llawer o'r gweithwyr chwarae'n helpu'r ysgol i ddynodi a darparu strwythur pwrpasol sy'n addas i feysydd chwarae storio'r sborion ac offer chwarae arall. Bydd y staff amser egwyl a'r goruchwylwyr amser cinio'n goruchwylwyo agor y strwythur ac yn helpu'r plant i gael gafael ar

yr adnoddau a'u dychwelyd pan ddaw amser chwarae i ben.

Mae mudiadau chwarae Cymru'n adrodd bod ysgolion wedi dynodi ystod o fuddiannau a geir o drawsnewid amserau chwarae, megis:

- Plant hapusach
- Nifer sylweddol lai o ddigwyddiadau a damweiniau
- Plant yn dychwelyd i'r dosbarth yn barod i ddsygu
- Staff amser cinio hyderus
- Ymatebion cadarnhaol gan rieni.

Menna Sweeney, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Plascrug, Aberystwyth, sy'n sôn wrthym am effaith sesiynau chwarae amser cinio a ddarparwyd gan dîm chwarae RAY Ceredigion:

'Roedd cael y gweithwyr chwarae yma am y tymor yn golygu bod amserau chwarae'n hynod o ddiddorol i'r plant ... Roedd modd i'r plant fod yn fwy creadigol yn eu chwarae yn ogystal â bod yn fywiog, heb sylweddoli eu bod yn fywiog, yn ystod eu hamser cinio. Roedd y plant hynny sy'n hoffi eistedd neu chwarae gemau tawel yn cael eu cynnwys yn weithredol yn y sesiynau chwarae.'

<http://on.fb.me/gwladchwaraegyfeillgar>



Hyfforddiant Chwarae a goruchwylwyr amser cinio

Rachel Maflin, Swyddog Datblygu Chwarae Caerffili, sy'n sôn wrthym am brofiadau eu tîm chwarae o weithio ag ysgolion lleol i ddarparu hyfforddiant chwarae ar gyfer goruchwylwyr amser cinio a rhannau rhydd ar y buarth chwarae.

Trwy ariannu Ysgolion Bro gweithiodd pum ysgol gynradd, sydd â chlwb ar ôl ysgol yng Nghaerffili, â tîm chwarae GAVO i osod Caban Chwarae ar fuarth chwarae'r ysgol a darparu hyfforddiant i oruchwylwyr amser cinio a rhai o'r athrawon.

Cynhaliodd y tîm chwarae archwiliadau manau chwarae – gan edrych ar y modd yr oedd y plant yn defnyddio'r gofod oedd ar gael iddynt, rôl y goruchwylwyr amser cinio, rheolau'r ysgol a'r adnoddau oedd ar gael eisoes. Cynorthwyodd hyn i hysbysu'r hyfforddiant a gynigiwyd iddynt.

Cafodd y blychau Caban Chwarae, sy'n seiliedig ar fodel y *Scrapstore PlayPod®*, eu llanw â rhannau rhydd o ganolfan adnoddau Re-create yng Nghaerdydd yn ogystal ag adnoddau ychwanegol

oedd wedi eu lloffa oddi wrth amrywiol adwerthwyr ac unigolion. Yn ogystal, anfonodd yr ysgolion lythyrau at y rhieni'n gofyn iddynt gyfrannu unrhyw ddeunyddiau priodol. Gweithiodd artist graffiti gyda'r ysgolion i greu cynlluniau ar gyfer addurno'r blychau a gweithio gyda disgyblion blwyddyn 6 i'w paentio.

Yn ogystal, gwahoddwyd staff clybiau ar ôl ysgol ar y safle i fynychu'r hyfforddiant chwarae hefyd. Defnyddiodd rhai ysgolion ddiwrnod HMS ar gyfer yr hyfforddiant, tra y trefnodd eraill i'w gynnal dros ddau neu dri diwrnod. Yn ogystal, trosglwyddwyd sesiynau hyfforddiant a chyflwyniadau ar wahân i athrawon / llywodraethwyr ac mewn gwasanaethau ysgol.

Roedd sesiynau hyfforddiant yn cynnwys:

- Edrych ar bwysigrwydd chwarae yn yr ysgol a'r buddiannau i'r plant a'r ysgol
- Rôl y goruchwylwyr amser cinio, gwerth chwarae, rhannau rhydd
- Iechyd a diogelwch ac asemiadau risg

- Ymddygiad
- Mannau chwarae

Wedi'r sesiynau hyfforddiant mynychodd y gweithwyr chwarae sesiynau amser cinio yn yr ysgol i gynnig cefnogaeth wrth i rannau rhydd gael eu cyflwyno i'r buarth chwarae.

Er iddo gael ei groesawu gan yr ysgolion a'r plant, cyflwynodd y prosiect rywfaint o heriau:

- Y Tywydd – oherwydd yr holl law a gafwyd y llynedd bu'n rhaid canslo llawer o sesiynau.
- Sicrhau bod digon o weithwyr chwarae ar gael i ddarparu cefnogaeth parhaus i'r ysgolion.
- Dwyn perswâd ar rai goruchwylwyr amser cinio / rhieni y byddai'r agwedd newydd yma'n gweithio!

Adborth gan oruchwylwydd amser cinio mewn ysgol sydd â *Scrapstore PlayPod®*:

'Mae'r plant yn cael amser "chwarae" go iawn. Maent yn hapusach ac yn cyd-dynnu mewn modd llawer mwy cytûn.'

Gradd sylfaen chwarae newydd

Ben Tawil, Uwch-ddarlithydd yn yr Adran Astudiaethau Teuluoedd a Phlentyndod sy'n sôn wrthym am y cyrsiau gradd sylfaen newydd, sy'n ymwneud â chwarae a gwaith chwarae, sydd bellach yn cael eu trosglwyddo ym Mhrifysgol Glyndŵr.

Mae Prifysgol Glyndŵr yn cynnig cyfle i ymarferwyr profiadol astudio ar gyfer gradd sylfaen dwy flynedd o hyd mewn Chwarae, Babanod a Phlant Ifanc neu Addysg y Blynyddoedd Cynnar. Caiff y tri llwybr yma eu trosglwyddo trwy ddysgu ar-lein â chefnogaeth lawn – bydd dysgwyr yn astudio gartref ac o'r herwydd mae'n cynnig hyblygrwydd iddynt gyfuno eu hastudiaethau â'u hymrwymadau teuluol a gwaith.

Wedi eu seilio ar sylfaen cadarn mewn Astudiaethau Plentyndod, gan archwilio agweddau allweddol o gymdeithaseg, seicoleg, dysg a datblygiad, bydd y graddau sylfaen yma'n galluogi dysgwyr i greu cyswllt rhwng gwaith ymchwil, polisiau a'u harfer proffesiynol personol. Anogir dysgwyr i herio eu profiadau personol eu hunain a datblygu fel ymarferwyr ymchwilol.

Mae chwarae'n gwbl ganolog i blentyndod ac, o'r herwydd, mae'n llinyn sy'n rhedeg trwy'r rhaglen lefel 4 (blwyddyn gyntaf) fel thema sylfaenol, tra y bydd myfyrwyr lefel 5 (ail flwyddyn) sy'n dilyn y llwybr Chwarae yn astudio gwaith chwarae, risg, gwytnwch a lles. Gall myfyrwyr edrych ymlaen i weithio ar bynciau ymarferol

a damcaniaethol yn amrywio o ymyrryd, amgylchedd, ymddygiad heriol, i chwarae therapiwtig a diwylliannau chwarae plant.

Wedi cwblhau'r radd sylfaen gall dysgwyr gwblhau elfen ychwanegol lefel 6 er mwyn ennill gradd BA (Anrh) mewn Astudiaethau Plentyndod.

Os oes gennych ddwy flynedd o brofiad o weithio â phlant a'ch bod yn meddu ar gymhwyster lefel 3 perthnasol, ebstiowch Ben am fwy o wybodaeth:

b.tawil@glyndwr.ac.uk

Adolygiad: *Datblygu a rheoli manau chwarae*

Dafydd Myrddin Hughes, Cydlynnydd Prosiect Ceidwaid Chwarae ar ran Fforwm Chwarae Gogledd Orllewin Cymru sy'n gweithio mewn partneriaeth â Dewis Chwarae, sy'n adolygu ein cyhoeddiad diweddaraf, *Datblygu a rheoli manau chwarae*.

Prif ddiben y pecyn cymorth rhwydd i'w ddefnyddio yma yw hysbysu cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol am y rolau a'r cyfrifoldebau allweddol sydd ynghlwm â dylunio manau chwarae, y broses gynllunio a datblygu, cynnal a chadw, yswiriant, rheoli risg ac ariannu.

Bydd y cynnwys a'r arddull yn eich llenwi chi a'ch grŵp cymunedol â hyder a sicrwydd, o ddilyn y canllawiau hyn, y byddwch yn y pen draw yn darparu rhywbeth o safon uchel, sy'n cyflawni anghenion cymunedol ac sy'n ddiogel ac wedi ei reoli'n dda.

Mae'r pecyn cymorth yn defnyddio tybiaethau cyfoes ar ddylunio a rheoli manau chwarae i ddarparu trosolwg eglur a chryno o gyfrifoldebau'r rheini sy'n datblygu a rheoli manau chwarae. Mae hyn yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar gyfrifoldebau cyfreithiol, cynnal asesiadau risg-budd, gweithio gydag eraill a chynnal archwiliadau manau chwarae. Mae'r dyfyniadau

chwalu'r chwedlau, a'r datganiadau gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn golygu ei fod yn tawelu meddyliau ymhellach.

Rwy'n ei ystyried yn 'help llaw' heb yr elfen 'bwydo â llwy', sy'n annog perchenogaeth ac sy'n meithrin cyfrifoldeb ymysg y bobl hynny sy'n datblygu a rheoli manau chwarae. Bydd yn tawelu meddyliau grwpiau ac unigolion bod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn ateb anghenion chwarae eich cymuned. Bydd yn ysgafnu'r baich pan ddaw'n fater o wneud penderfyniadau anodd ac yn arbed amser tra'n gwneud y defnydd gorau o gyllid. 'Dyw'r pecyn cymorth ddim yn rhestr diddiwedd o'r hyn y byddwch ei angen a'r hyn y bydd rhaid ichi ei wneud, ond yn hytrach mae'n ganllaw mwy realistig ac ymarferol o'r hyn y dylid ei wneud. Mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at wybodaeth bellach sy'n cefnogi cymunedau chwarae, yn cynnwys dylunio strydoedd, manau chwaraeadwy a staffio. Ceir CD gyda'r pecyn cymorth sy'n cynnwys templedi ffurflenni defnyddiol fydd yn arbed amser ac arian.

Rwy'n credu bod unrhyw un sy'n datblygu neu'n rheoli man chwarae angen copi a bod angen iddynt ei ddefnyddio ac, o ganlyniad, byddwch yn cael blas ar eich rôl a bydd y plant yn mwynhau gweld eu dewis o gyfleoedd chwarae'n cael eu troi'n realiti ac yn cael eu cyfoethogi.

Prynwch eich copi nawr!

Mae *Datblygu a rheoli manau chwarae* wedi ei ddylunio ar gyfer unrhyw un sy'n gyfrifol am reoli neu ddatblygu man chwarae mewn cymuned.

Bwriedir iddo fod yn ffynhonnell cefnogaeth a chyfeirio unigol ar gyfer grwpiau cymunedol, fel y gallant lywio eu ffordd trwy rai o heriau rheoli neu ddatblygu man chwarae.

www.chwaraecymru.org.uk/cym/siop

Pecyn Cymorth Cymunedol



Datblygu a rheoli manau chwarae

Ysbryd 2013

14/15 Mai 2013
Holiday Inn, Caerdydd
Aelodau (yng Nghymru): £230
Rhai sydd ddim yn aelodau: £250

Cynhadledd ddeuddydd yn llawn areithiau allweddol ysbrydoledig, trafodaethau bywiog a gweithdai.


Bydd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Yr Athro Ken Worpole, Tim Gill, a Theresa Casey.

Bydd modd ichi gymryd rhan mewn pedwar sesiwn gweithdy. Bydd pynciau'n cynnwys: ymgysylltu

â chymunedau; rheoli manau chwarae; rhieni fel partneriaid; dulliau ar gyfer asesu gwerth chwarae; rhyngweithiadau gweithwyr chwarae; darllen a chwarae, a hawl y plentyn i chwarae yn yr ysgol.

Pwy ddylai ddod? Gweithwyr chwarae newydd a phrofiadol, gweithwyr proffesiynol ym maes chwarae, therapyddion chwarae, myfyrwyr, staff a rheolwyr darpariaeth chwarae sy'n gweithio mewn clybiau ar ôl ysgol, meysydd chwarae antur, canolfannau plant integredig, gwasanaethau ieuenticid, ac unrhyw un sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant neu sydd yn gyfrifol am chwarae plant.

Archebwch eich lle yn awr ar: www.chwaraecymru.org.uk/cym/ysbryd2013



Ysbryd
 14/15 Mai 2013
 Caerdydd